Spring 23 | Edition 03

# AIC Cymru

WORKING IN SUPPORT OF **MODERN SUSTAINABLE COMMERCIAL AGRICULTURE**



## Welcome

**Dear AIC Members,**

**Welcome to the half year AIC Cymru Journal for 2023, bringing you key updates on those issues, policies, and directions that are specific to Wales.**



**Michael Muncey**
AIC Wales Policy Manager

# Development of AIC Cymru

**The first official Committee Forum meeting of AIC Cymru was held in Aberystwyth on 13 February, chaired by Gareth Davies.**

The meeting set the scene for strategic and operational activities for the year ahead, covering activities to amplify messaging with Member organisations, stakeholder engagement, and effective political lobbying.

Welsh Meat Promotion HCC joined the meeting as part of this stakeholder alignment and exchange.



A further meeting of the Committee Forum took place on the 13 April in Carmarthen.

AIC's Head of Feed James McCulloch joined the meeting to update and discuss AIC's work in this sector, including its response to the Veterinary Medicines Directorate (VMD) consultation on veterinary medicine regulations, the self-assessment framework on sustainability, the national transition plan for verified deforestation and conversion free (vDCF) soya, and AIC's Soya Supply Group.

James also shared the work on AIC's Sustainability Programme Working Group as well as AIC development of a green labelling proposal for communicating Life Cycle Assessment (LCA) data on feed labels.

On policy, a pressing action from the meeting is AIC Cymru's ongoing request to Welsh Government that there is a willingness and offer from the agri-supply chain industry in Wales to be instrumental in providing advice, innovation, expertise, and verification of outcomes of the Sustainable Farming Scheme (SFS).

AIC Cymru is frustrated that a "closed" Farming Connect and consultancy paid approach is consistently communicated by Welsh Government which is now wholly funded by taxpayers' money.

Previously, European Development Funding had been part of the funding, but this is no longer possible following Brexit.

Some £22.9 million of taxpayers' money had been announced on 23 February to fund Farming Connect until March 2025 to support the transition to SFS.

AIC Cymru believes that this is not in the best interest of Welsh taxpayers given the industry-funded resource that is available. The agri-supply industry has significantly more people on the ground, who have a high level of expertise, continuous professional training and development, and who are assigned to food production assurance schemes.




# Welsh legislation and budget update

## The Agriculture (Wales) Bill

**The Bill is progressing through the Senedd at pace, and Royal Assent is expected by the summer.**

Farming Unions submitted to Welsh Government five refined amendments which take account of key concerns held by both NFU Cymru and Farmers Union of Wales.

These are:

- Creating a fifth SLM objective that would ensure that legislation created under an Act seeks to protect and enhance the economic viability of agricultural and rural communities
- Linking the fourth SLM objective ("to conserve and enhance the countryside and cultural resources and promote public access to and engagement with them, and to sustain the Welsh language and promote and facilitate its use") to support for farmers and existing (rather than new) public access
- Requiring agricultural productivity and levels of food production be taken into account when the Welsh Ministers prepare or revise indicators and targets
- Adding to the criteria where Welsh ministers would have power to provide support so that economic, social, and cultural objectives are included as well as support for young and new entrants
- Requiring the Welsh Ministers to make multi-annual financial assistance plans, the first of which would be for seven years beginning on 1 January 2025, with no subsequent plans covering less than five years

While considered, ultimately Welsh Government did not respond positively on the ask for a more balanced need within the Bill for a productive, economically resilient and viable rural farming economy, with the ability to then deliver positive environmental outcomes sought by the Sustainable Farming Scheme regarding land management reform, climate change, and net zero.

## Sustainable Farming Scheme

**The next consultation (in response to co-design and working group findings) is now not expected until between September and the 'end of the year'.**

It is not clear whether this consultation will have payment rates included or not.

There is evidently a lot of work still needed to ensure the scheme and corresponding systems can work well. The BPS reductions in England - now around 35% or nearing 50% when taking inflation into account - coupled with more certainty on the 2023 ELMS Standards and payment rates on offer within the scheme, is a clear signal to Welsh Government to provide greater clarity on the SFS payments for the environmental outcomes expected to be delivered. This also serves as an effective warning to the Welsh Government about rushing through a new scheme without careful scrutiny.

## Welsh Government final budget 2023-24

**Industry concerns had been raised over the financial support budget to the sector regarding potential reductions to the Welsh Government's Rural Affairs budget had the Rural Development Programme funds not been used.**

The Welsh Government draft budget for the 2023-24 financial year suggested that the budget for rural affairs would decrease by £9 million compared with the indicative budget published in March 2022, which in real terms represented a much greater fall.

To much relief for the industry the final Welsh Government budget for 2023, published on 28 February, showed a rural affairs budget of £482 million.

This is 23% more than the equivalent allocation for 2022-23 (£393 million), £26 million more than the indicative budget from March 2022, and £35 million more than shown in the draft budget.

With UK Consumer Price Inflation sitting at around 9% for the 12 months to January 2023, this represents a 14% increase to the budget for rural affairs in Wales in real terms. AIC Cymru views this as a commendable result and a welcome relief for the sector.

## Water Resources Regulations and Sustainable Drainage Systems issues

**AIC Cymru is aware that there is an ongoing concern with the issue of Sustainable Drainage Systems (SuDS). The interpretation of the rules is negatively impacting farmers applying for planning permission for slurry and silage storage to comply with the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021.**

Communications have been sent to the CEO of Natural Resources Wales (NRW) with copies to the Chairman of NRW and Minister for Rural Affairs Lesley Griffiths MS.

Farmers across Wales are experiencing a number of issues when seeking planning consent for new installations or increasing current capacity.

These include:

- Struggling to get through the pre-application process due to SuDS, particularly when applying for silage clamps and earth banked slurry stores
- Increased costs of having to apply for and produce SuDS when it should not be necessary
- Delays in obtaining planning permission due to Local Authorities (LAs) not understanding the SuDS regulations and how they should be applied
- Losing out on Welsh Government grants to upgrade facilities due to delays in the planning process overrunning the grant claim deadlines
- Qualified agricultural consultants of the required experience and quality are in short supply, and because of further delays added to the planning process, some farmers will be unable to meet the storage requirements for slurry as required by the above regulations

Due to the area of many installations exceeding 100 square metres, most Local Authorities SuDS approval



bodies (SAB) are requiring SuDS pre-planning approval before construction can commence.

This is despite the fact that these installations are required by the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021 and are therefore designed to capture and store all the rainwater that falls on them and do not need a drainage system.

In short, the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021 and The Sustainable Drainage (Approval and Adoption) (Wales) Order 2018 conflict.

Local Authorities are putting farmers in a position where they incur significant extra costs or risk losing much needed support to improve facilities to meet regulations. It seems that this issue is due to Local Authorities lacking the necessary understanding of the SuDS regulations with interpretation of the regulations also differing between different authorities across Wales.

AIC Cymru supports farming Unions in requesting that this matter be addressed as a matter of urgency and that a Technical Advice Note or similar guidance be issued to clarify to Local Authorities where SuDS are needed and why installations of the type mentioned above do not need SuDS.



# Wales Future Agricultural Policy

**In contrast to England, the Basic Payment Scheme (BPS) continues to be made available in Wales in 2023 and 2024 with the rules unchanged - the £238m funding allocation is dependent on budget availability.**

The announcement that BPS payments will remain at the current level and available until 2024 was welcomed by AIC Cymru and the wider industry.

The Sustainable Farming Scheme (SFS) will replace BPS and Glastir. This will be available to all farms in Wales but will be different from the BPS as it will not be paid "as of right". Instead, land managers will need to provide public goods to access it.

The transition to the new scheme will commence in 2025, and it is likely to be phased in over a number of years.

The "sunset" provision in current legislation means the powers of the Welsh Government expire on 31 December 2024; therefore, a new Wales Bill to provide such powers has been laid before the Senedd.

This will cover other matters as well as farm support. New Minimum Standards for Agriculture to replace cross compliance were expected to be included in the Bill but these did not appear.



# AIC responds to government consultations

**AIC Cymru has responded to the livestock manures licensing scheme consultation, supporting wider industry responses on the need for proportionate regulation that does not disadvantage livestock keepers in Wales compared with other parts of the UK.**

More than 1,400 farmer responses to the consultation were coordinated by NFU Cymru alone.

Meanwhile, AIC Cymru continues to supply Welsh Government and civil servants with supply chain information following the Ukraine invasion and wider supply challenges in the feed sector in particular. This engagement continues to grow and supports our working relationship with the Welsh Government.



## Share your feedback

**As AIC Cymru Policy Manager, Michael Muncey continues to forge valuable relationships with Members and stakeholders.**

Feedback and suggestions as to how AIC Cymru can better engage, support, and represent its Membership is welcome as it continues to establish.

michael.muncey@agindustries.org.uk

## Dates for the diary

**6 June 2023 - Committee Meeting** (further details to come).

**24 July 2023** - AIC Cymru will be at the Welsh Royal Show. To mark AIC's 20 year anniversary, AIC Cymru will host an informal drinks reception for Members and stakeholders at the showground (further details to come).

Gwanwyn 2023 | Argraffiad 03

# AIC Cymru

YN GWEITHIO I GEFNOGI AMAETHYDDIAETH **FODERN FASNACHOL A CHYNALIADWY**



## Croeso

**Annwyl Aelodau AIC,**

**Croeso i dyddlyfr hanner blwyddyn AIC Cymru ar gyfer 2023, sy'n dod â diweddariadau allweddol i chi ar y materion, y polisïau a'r cyfarwyddiadau hynny sy'n benodol i Gymru.**



**Michael Muncey**
AIC Wales Policy Manager

# Datblygu AIC Cymru

**Cynhaliwyd cyfarfod swyddogol cyntaf Fforwm Pwyllgor AIC Cymru yn Aberystwyth ar 13 Chwefror, dan gadeiryddiaeth Gareth Davies.**

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom gyflwyno'r gweithgareddau strategol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gwmpasu gweithgareddau i ledaenu negeseuon ymhlith aelod-sefydliadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a lobïo gwleidyddol effeithiol.

Ymunodd Hybu Cig Cymru (HCC) â'r cyfarfod fel rhan o'r broses trafod a chytuno â rhanddeiliaid.

Cynhaliwyd cyfarfod arall o Fforwm y Pwyllgor ar 13 Ebrill yng Nghaerfyrddin.



Ymunodd Pennaeth Bwyd Anifeiliaid AIC, James McCulloch, â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a thrafod gwaith AIC yn y sector hwn, gan gynnwys ei ymateb i ymgynghoriad y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol ar reoliadau meddyginiaeth filfeddygol, y fframwaith hunanasesu ynghylch cynaliadwyedd, y cynllun pontio cenedlaethol ar gyfer soia o ffynonellau sydd wedi'u dilysu sy'n osgoi datgoedwigo a thir wedi'i drosi o ecosystemau, a Grŵp Cyflenwi Soia AIC.

Hefyd, gwnaeth James rannu gwybodaeth am y gwaith ar Weithgor Rhaglen Gynaliadwyedd AIC yn ogystal â gwaith AIC i ddatblygu cynnig labelu gwyrdd ar gyfer cyfathrebu data Asesiad Cylch Bywyd ar labeli bwyd anifeiliaid.

O ran polisi, cam brys o'r cyfarfod yw cais parhaus AIC Cymru i Lywodraeth Cymru bod parodrwydd a chynnig gan gadwyn gyflenwi y diwydiant amaethyddol yng Nghymru i fod yn allweddol wrth ddarparu cyngor, arloesedd, arbenigedd, a gwirio canlyniadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae AIC Cymru yn rhwystredig bod dull "caeëdig" Cyswllt Ffermio ac ymgynghori â thâl yn cael ei gyfathrebu'n gyson gan Lywodraeth Cymru sydd bellach yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan arian y trethdalwyr.

Yn y gorffennol, roedd arian o Gronfa Ddatblygu Ewrop wedi bod yn rhan o'r cyllid, ond nid yw hyn yn bosibl mwyach yn dilyn Brexit.

Ar 23 Chwefror, cyhoeddwyd bod tua £22.9 miliwn o arian trethdalwyr yn cael ei defnyddio i ariannu Cyswllt Ffermio tan fis Mawrth 2025 er mwyn cefnogi'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae AIC Cymru o'r farn nad yw hyn er budd pennaf trethdalwyr Cymru o ystyried yr adnoddau sydd ar gael a ariennir gan y diwydiant. Mae gan gadwyn cyflenwi'r diwydiant amaethyddol lawer mwy o bobl ar lawr gwlad, sydd â lefel uchel o arbenigedd, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cael eu neilltuo i gynlluniau sicrwydd cynhyrchu bwyd.




# Diweddariad ar ddeddfwriaeth a chyllideb Cymru

## Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

**Mae'r Bil yn mynd drwy'r Senedd yn gyflym, a disgwylir Cydsyniad Brenhinol erbyn yr haf.**

Cyflwynodd Undebau Ffermwyr bum gwelliant wedi'u mireinio i Lywodraeth Cymru sy'n ystyried pryderon allweddol sydd gan NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Creu pumed amcan o ran rheoli tir yn gynaliadwy a fyddai'n sicrhau bod deddfwriaeth sy'n cael ei chreu o dan Ddeddf yn ceisio diogelu a gwella hyfywedd economaidd cymunedau amaethyddol a gwledig
- Cysylltu pedwerydd amcan rheoli tir yn gynaliadwy ("cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltu â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd") â chymorth i ffermwyr a'r mynediad cyhoeddus presennol (yn hytrach na mynediad newydd)
- Ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchiant amaethyddol a lefelau cynhyrchu bwyd gael eu hystyried wrth i weinidogion Cymru baratoi neu adolygu dangosyddion a thargedau
- Ychwanegu at y meini prawf lle byddai gan weinidogion Cymru y grym i ddarparu cymorth fel bod amcanion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu cynnwys yn ogystal â chymorth i bobl ifanc a newydd-ddyfodiaid
- Ei gwneud yn ofynnol i weinidogion Cymru lunio cynlluniau cymorth ariannol amlflwydd, y byddai'r cyntaf ohonynt am saith mlynedd yn dechrau ar 1 Ionawr 2025, heb unrhyw gynlluniau dilynol yn cwmpasu llai na phum mlynedd

Er ei bod wedi'i ystyried, yn y pen draw ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb yn gadarnhaol i'r cais am angen mwy cytbwys yn y Bil am economi ffermio wledig gynhyrchiol, economaidd wydn ac economaidd hyfyw, gyda'r gallu wedyn i gyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol y mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ceisio eu cyflawni o ran diwygio rheoli tir, newid hinsawdd, a sero net.

## Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Bellach, ni ddisgwylir i'r ymgynghoriad nesaf (mewn ymateb i gyd-ddylunio a chanfyddiadau gweithgorau) ddechrau tan rywbryd rhwng mis Medi a 'diwedd y flwyddyn'.**

Nid yw'n glir p'un a fydd cyfraddau talu wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn ai peidio.

Mae'n amlwg bod angen llawer o waith o hyd i sicrhau bod y cynllun a'r systemau cyfatebol yn gallu gweithio'n dda. Mae gostyngiadau yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol yn Lloegr - sydd bellach oddeutu 35% neu bron i 50% erbyn hyn o ystyried chwyddiant - ynghyd â mwy o sicrwydd ar safonau a chyfraddau talu a gynigir o fewn Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol 2023, yn arwydd clir i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder ynghylch taliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer y canlyniadau amgylcheddol y disgwylir eu cyflawni. Mae hyn hefyd yn rhybudd effeithiol i Lywodraeth Cymru ynglŷn â rhuthro drwy gynllun newydd heb graffu gofalus.

## Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2023-24

**Mynegwyd pryderon gan y diwydiant ynghylch y gyllideb cymorth ariannol i'r sector ynghylch gostyngiadau posibl i gyllideb Materion Gwledig Llywodraeth Cymru pe na bai arian y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i ddefnyddio.**

Roedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn awgrymu y byddai'r gyllideb ar gyfer materion gwledig yn gostwng £9 miliwn o gymharu â'r gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, a oedd mewn termau real yn cynrychioli cwymp llawer mwy.

Er rhyddhad mawr i'r diwydiant, roedd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2024, a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror, yn dangos cyllideb o £482 miliwn ar gyfer materion gwledig.

Mae hyn 23% yn fwy na'r dyraniad cyfatebol ar gyfer 2022-23 (£393 miliwn), £26 miliwn yn fwy na'r gyllideb ddangosol o fis Mawrth 2022, a £35 miliwn yn fwy na'r hyn a ddangosir yn y gyllideb ddrafft.

Gyda Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr y DU tua 9% ar gyfer y 12 mis hyd at Ionawr 2023, mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 14% i'r gyllideb ar gyfer materion gwledig yng Nghymru. Mae AIC Cymru yn gweld hyn fel canlyniad cymeradwy ac yn rhyddhad i'w groesawu i'r sector.

## Materion Rheoliadau Adnoddau Dŵr a Systemau Draenio Cynaliadwy



**Mae AIC Cymru yn ymwybodol bod pryder parhaus ynghylch Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau). Mae dehongli'r rheolau yn cael effaith negyddol ar ffermwyr sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer storio slyri a silwair i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.**

Mae gwybodaeth wedi'i hanfon at Brif Swyddog Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyda chopïau at Gadeirydd CNC a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, Lesley Griffiths AS.

Mae ffermwyr ledled Cymru yn wynebu nifer o broblemau wrth geisio cael caniatâd cynllunio ar gyfer gosodiadau newydd neu gynyddu capasiti presennol.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cael trafferth mynd drwy broses cyn ymgeisio SDCau, yn enwedig wrth wneud cais am glampiau silwair a storfeydd slyri ar gloddiau pridd
- Costau uwch o orfod gwneud cais am SDCau a'u cynhyrchu pan na ddylai fod yn angenrheidiol
- Oedi cyn derbyn caniatâd cynllunio oherwydd nad yw awdurdodau lleol yn deall y rheoliadau ar gyfer SDCau a sut y dylid eu cymhwyso
- Colli allan ar grantiau Llywodraeth Cymru i uwchraddio cyfleusterau oherwydd oedi yn y broses gynllunio yn rhedeg dros y dyddiadau cau ar gyfer hawlio grantiau
- Mae ymgynghorwyr amaethyddol cymwysedig sy'n meddu ar y profiad a'r cymwysterau gofynnol yn brin, ac oherwydd oedi pellach a ychwanegwyd at y broses gynllunio, ni fydd rhai ffermwyr yn gallu bodloni'r gofynion storio ar gyfer slyri fel sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliadau uchod



Oherwydd bod arwynebedd llawer o osodiadau yn fwy na 100 metr sgwâr, mae'r rhan fwyaf o gyrff cymeradwyo SDCau'r awdurdodau lleol yn gofyn am gymeradwyaeth cyn cynllunio'r SDCau cyn y gall y gwaith adeiladu ddechrau.

Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y gosodiadau hyn yn ofynnol o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ac felly wedi'u cynllunio i ddal a storio'r holl ddŵr glaw sy'n disgyn arnynt ac nad oes angen system ddraenio arnynt.

Yn fyr, mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 a Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 yn gwrthdaro.

Mae awdurdodau lleol yn rhoi ffermwyr mewn sefyllfa lle maent yn mynd i gostau ychwanegol sylweddol neu mewn perygl o golli cymorth y mae mawr ei angen i wella cyfleusterau er mwyn bodloni'r rheoliadau. Mae'n ymddangos mai'r rheswm am hyn yw nad yw awdurdodau lleol yn deall rheoliadau SDCau yn ddigon da ac mae dehongli'r rheoliadau hefyd yn amrywio rhwng gwahanol awdurdodau ledled Cymru.

Mae AIC Cymru yn cefnogi Undebau Ffermwyr wrth ofyn bod y mater hwn yn cael ei drin ar fyrder a bod Nodyn Cyngor Technegol neu ganllawiau tebyg yn cael eu cyhoeddi i egluro i awdurdodau lleol lle mae angen SDCau a pham nad oes angen SDCau ar osodiadau o'r math a grybwyllir uchod.



# Polisi Amaethyddol Cymru ar gyfer y Dyfodol

**Yn wahanol i Loegr, mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn parhau i fod ar gael yng Nghymru yn 2023 a 2024 gyda'r rheolau heb eu newid – mae'r dyraniad cyllid o £238 miliwn yn dibynnu ar argaeledd y gyllideb.**

Gwnaeth AIC Cymru a'r diwydiant ehangach groesawu'r cyhoeddiad y bydd taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn aros ar yr un lefel ac y byddant ar gael tan 2024.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn disodli Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynllun Glastir. Bydd hwn ar gael i bob fferm yng Nghymru ond bydd yn wahanol i Gynllun y Taliad Sylfaenol gan na fydd yn cael ei dalu "fel hawl". Yn hytrach, bydd angen i reolwyr tir ddarparu sicrwydd y bydd y cyhoedd yn gallu cael mynediad atynt.

Bydd y cyfnod pontio i'r cynllun newydd yn dechrau yn 2025, ac mae'n debygol o gael ei gyflwyno'n raddol dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r ddarpariaeth "machlud" yn y ddeddfwriaeth gyfredol yn golygu bod pwerau Llywodraeth Cymru yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024; felly, mae Bil Cymru newydd i ddarparu pwerau o'r fath wedi'i osod gerbron y Senedd.

Bydd hyn yn cynnwys materion eraill yn ogystal â chymorth i ffermwyr. Roedd disgwyl y byddai Safonau Gofynnol Newydd Amaethyddiaeth i ddisodli gofynion trawsgydymffurfiol gael eu cynnwys yn y Bil ond nid oedd y rhain i'w gweld.



# AIC yn ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth

**Mae AIC Cymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun trwyddedu tail da byw, gan gefnogi ymatebion ehangach y diwydiant ar yr angen am reoleiddio cymesur nad yw'n rhoi ceidwaid da byw yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â rhannau eraill o'r DU.**

Cydlynwyd dros 1,400 o ymatebion ffermwyr i'r ymgynghoriad gan NFU Cymru yn unig.

Yn y cyfamser, mae AIC Cymru yn parhau i roi gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi i Lywodraeth Cymru a gweision sifil yn dilyn yr ymosodiad ar Wcráin a heriau cyflenwi ehangach yn y sector bwyd anifeiliaid yn benodol. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn parhau i ddatblygu ac mae'n cefnogi ein cydberthynas waith â Llywodraeth Cymru.



## Rhannwch eich adborth

**Fel Rheolwr Polisi AIC Cymru, mae Michael Muncey yn parhau i feithrin cydberthnasau gwerthfawr ag aelodau a rhanddeiliaid.**

Mae adborth ac awgrymiadau ar sut y gall AIC Cymru ymgysylltu, cefnogi a chynrychioli ei Aelodaeth yn well yn cael ei groesawu wrth iddo barhau i sefydlu.

michael.muncey@agindustries.org.uk

## Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur

**6 Mehefin, 2023 – Cyfarfod y Pwyllgor** (manylion pellach i ddod).

**24 Gorffennaf, 2023** - Bydd AIC Cymru yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru. Er mwyn nodi pen-blwydd AIC yn 20 oed, bydd AIC Cymru yn cynnal derbyniad diodydd anffurfiol i aelodau a rhanddeiliaid ar faes y sioe (manylion pellach i ddod).

CAFC RWAS

aic CYMRU agricultural industries confederation

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk

RDP COMMS Design & Development by RDP